Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dolwyddelan
# Dolwyddelan
# Conwy
# LL25 0SZ

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Dolwyddelan ym mhentref Dolwyddelan, tua chwe milltir o Betws-y-Coed. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Conwy.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 29 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ychydig ers yr arolygiad diwethaf. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn ac un athrawes ran-amser. Addysgir yn bennaf yn y Gymraeg.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ac mae cyrhaeddiad disgyblion yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig yn yr ysgol. Mae 3.4% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn sylweddol is na'r canrannau sirol a Chymru. Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol sydd ychydig llai na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%).

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2012 yn dilyn cyfnod mewn gofal am ddau dymor. Mae hi â chyfrifoldeb dosbarth am bedwar diwrnod.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dolwyddelan yn 2012-2013 yn £5,087. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £12,262 a'r lleiafswm yw £3,081. Mae Ysgol Gynradd Dolwyddelan yn safle 16eg allan o'r 60 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Dolwyddelan yn ddigonol gan fod:

- llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog ac ansawdd mwyafrif yr addysgu yn dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Er hynny:

- mae tueddiadau yng nghanlyniadau asesiadau athrawon dros gyfnod yn is na chanlyniadau ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru;
- nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn darllen Cymraeg;
- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith; ac
- nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth â gweledigaeth glir sydd wedi cael ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr;
- holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio fel tîm;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun a'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg;
- cynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau; a bod
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn medrau darllen Cymraeg

A2 Gwella ansawdd ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith

A3 Cryfhau prosesau cynllunio yr addysgu er mwyn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A5 Cryfhau gallu llywodraethwyr i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sy'n briodol i'w hoed ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i leiafrif ohonynt.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Mae'r rhan fwyaf yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg wrth drin a thrafod mewn amrywiol bynciau. Er hynny, lleiafrif sy'n defnyddio geirfa gyfoethog a chystrawennau'n gywir. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r goreuon yn darllen yn gywir gyda rhuglder a mwynhad. Parhau i ddatblygu mae gallu lleiafrif y disgyblion i adnabod geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod briodol o destunau gyda chywirdeb cynyddol ac yn defnyddio eu medrau'n effeithiol ar gyfer darllen at wahanol ddibenion. Lleiafrif sy'n darllen ar goedd gyda rhuglder ac yn lliwio'u mynegiant yn dda. Ychydig ohonynt sydd â'r medrau i ddarllen dros destun yn gyflym i gael argraff gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf yn darllen Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn Saesneg yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i gyflwyno'r wybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn defnyddio amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol i wahanol bwrpasau. Mae medrau atalnodi a sillafu'n datblygu'n briodol. Er hynny, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n greadigol ac estynedig yn y ddwy iaith wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir o waith. Anghyson yw safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn yr adroddiad gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn 2012 yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Yn 2012, roedd canlyniadau'r disgyblion 11 oed ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn gyson is na'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer pob pwnc, heblaw gwyddoniaeth a gyda'r isaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, dros gyfnod o bedair blynedd, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol bron yn ddieithriad ymhlith yr 50% isaf ac yn aml ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y cyfnod.

Roedd canran y disgyblion a oedd wedi cyrraedd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), yn uwch na'r teulu ond yn is na chyfartaleddau Cymru, yn y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn gosod yr ysgol yn yr 50% isaf yn 2012. Dros gyfnod o bedair blynedd, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn anwastad ac yn aml yn yr 50% isaf o ysgolion tebyg.

Ni fu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a bechgyn nac ym mherfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim dros y blynyddoedd diwethaf.

### Lles: Da

Mae ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion am gadw'n iach a diogel yn dda, ac maent yn deall ei bwysigrwydd. Maent yn falch o'u hysgol, yn teimlo'n ddiogel a hapus yno ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain. Lleiafrif sydd â'r hyder a'r gallu i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Maent yn foesgar a chwrtais ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion.

Mae'r canran presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf yn 93.6% sy'n ychydig yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae presenoldeb wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran cyfran y plant â'r hawl i ginio am ddim. Mae prydlondeb yn dda.

Dechrau datblygu mae dealltwriaeth aelodau o'r Cynghorau Ysgol ac Eco o'u cyfrifoldebau wrth gynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Maent yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt ac yn parchu eu syniadau.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion y rhan fwyaf ohonynt. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y

cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynllunio manwl a thrylwyr yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth blaenorol rhan fwyaf y disgyblion.

Mae cynllunio trefnus a bwriadus ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae darpariaeth effeithiol hefyd ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cywain a chyflwyno gwybodaeth a syniadau'n fedrus. Darperir cyfleoedd symbylus i'r disgyblion ysgrifennu i amrywiol bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r cynllunio'n llwyr effeithiol wrth ddatblygu ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith.

Rhoddir bri i'r cwricwlwm Cymreig a datblygu'r Gymraeg ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae unedau o waith fel yr un ar yr ardal leol yn hyrwyddo hyn yn effeithiol.

Parhau i ddatblygu y mae ymrwymiad yr ysgol i gynaliadwyedd. Darperir cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang fel wrth ddathlu'r Flwyddyn newydd Tseineaidd a chysylltiadau trwy raglen Comeniws. Mae darpariaeth effeithiol i ddatblygu mentergarwch a hybu masnach deg ymhlith disgyblion cyfnod allweddol 2.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith dda rhwng holl staff a disgyblion yr ysgol sy'n arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y dosbarthiadau. Mae gan y staff wybodaeth bynciol addas ac maent yn modelu iaith lafar dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwersi'n adeiladu'n effeithiol ar waith blaenorol. Fodd bynnag, nid oes bob amser gynllunio digon manwl ar sail ystod oed a gallu mewn dosbarth. O ganlyniad, nid oes ar adegau ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y mwyafrif o wersi, mae gweithgareddau dysgu diddorol, strwythur dosbarth trefnus a holi medrus yn herio'r holl ddisgyblion yn llwyddiannus. Gwneir defnydd da o adnoddau gan gynnwys TGCh a darperir cyfleoedd i'r disgyblion gydweithio'n effeithiol mewn grwpiau. Yn y lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r profiadau dysgu yn ymateb yn effeithiol i'r ystod oed a gallu.

Mae'r marcio yn drylwyr a'r sylwadau adeiladol yn crynhoi'r hyn sy'n dda yn y gwaith a'r hyn sydd angen ei wneud i'w wella. Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer tracio cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu a'r arfer o gynnwys y disgyblion yn y broses o asesu eu gwaith eu hunain wedi datblygu'n ddigonol.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am allu'r disgyblion ac yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei holl ddisgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac ymroddiad y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad personol,

ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Caiff y disgyblion gyfle i fagu agwedd ofalgar at eraill trwy fynnych weithgareddau elusennol a diwylliannol.

Anogir disgyblion i fwyta'n iach ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu ffitrwydd ac iechyd corfforol yn dda.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag asiantaethau arbenigol megis y gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau meddygol a chymdeithasol, adran anghenion dysgu ychwanegol y sir a'r heddlu. Caiff pob disgybl gefnogaeth dda gan holl staff yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Sicrheir bod y disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae darpariaeth fuddiol ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau addysg unigol eu llunio a'u hadolygu'n effeithiol mewn cydweithrediad â'r disgyblion a'u rhieni. Gwneir defnydd da o gymhorthydd i ateb gofynion penodol disgyblion a hybu eu datblygiad yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae naws teuluol i'r ysgol ac ymdeimlad cartrefol iawn. Mae'n gymuned hapus a dymunol gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith yr holl staff a disgyblion. Ceir ethos cynhwysol ac mae pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais da ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae'r adeilad yn eang a gwneir defnydd effeithiol ohono. Llwydda'r arddangosfeydd lliwgar a deniadol i greu awyrgylch dysgu deniadol. Mae safle'r ysgol yn un braf iawn gyda digon o le y tu allan. Mae'r ardal allanol yn ddeniadol iawn gyda buarth ac ardaloedd chwarae o safon uchel. Caiff yr ardaloedd eu defnyddio'n bwrpasol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad helaeth o adnoddau dysgu sydd mewn cyflwr da. Maent wedi'u storio'n drefnus, ac yn hylaw i'w defnyddio gan holl staff a disgyblion yr ysgol.

Mae'r adeilad yn addas ar gyfer yr anabl, ac fe'i cedwir yn lân a thaclus iawn y tu mewn a thu allan.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel ac ar les plant. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n effeithiol i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'n cynnig cyfeiriad clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithio fel rhan o dîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn helpu i gynnig cyfeiriad strategol. Mae adroddiadau'r pennaeth i'r corff yn drylwyr a chynhwysfawr ac maent yn gwneud defnydd da o ddadansoddiad data. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn ymwybodol o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol, a'u gallu i herio perfformiad yr ysgol, wedi datblygu'n llawn.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r angen i godi safonau llythrennedd. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael sylw da a hyrwyddir iechyd a ffitrwydd a dwyieithrwydd yn llwyddiannus. Mae datblygu medrau meddwl disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mewn byr amser mae'r pennaeth wedi llwyddo i adnabod yr ysgol yn drwyadl. Mae ganddi ddealltwriaeth sicr o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau ac agweddau ar gyfer datblygiad pellach. Sefydlwyd trefniadau priodol i ganfod barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r pennaeth yn ystyried ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad manwl o dueddiadau dros gyfnod. Mae hyn oll, ynghyd ag arsylwadau gwersi ac archwilio gwaith disgyblion, yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol.

Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn y broses o wella ansawdd, gyda'r blaenoriaethu yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae strategaethau addas ar gyfer cyflawni'r bwriadau, a defnydd priodol o dargedau mesuradwy a heriol i fesur cynnydd ynghyd â therfynau amser penodol.

Mae'r ysgol yn datblygu yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r rhwydweithiau o arfer proffesiynol sydd wedi eu creu gydag ysgolion eraill y dalgylch yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r rhieni a'r gymuned. Caiff y cysylltiadau hyn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad a lles disgyblion. Mae'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ac maent hwythau yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol gyda'r gymuned gan gynnwys cyswllt cryf â'r capeli lleol. Mae cydweithio agos gyda mentrau cymunedol lleol wedi cyfrannu'n helaeth at wella'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh a datblygiad yr ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae'r cyswllt cryf diweddar rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth ymgynghorol, wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth a safonau ar draws yr ysgol.

Mae'r berthynas agos gyda'r cylch Ti a Fi, sy'n cyfarfod yn neuadd yr ysgol, yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu'n fuan dda wedi trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol, yr ysgol uwchradd leol ac ysgolion y dalgylch yn sicrhau cydweithio effeithiol er mwyn cymedroli a safoni gwaith. Yn ogystal, trefnir hyfforddiant ar y cyd ag ysgolion cyfagos i gyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r defnydd a wneir o staff ategol yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd buddiol o arbenigedd staff er mwyn cyfoethogi profiadau a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yr athrawon yn briodol a darperir cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol yr holl staff yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.

Rheolir gwariant cyllid yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol gyda chymorth swyddog yr awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu o fewn ei chyllid a bod cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion yr ysgol. Neilltuir cyllid yn flynyddol ar gyfer adnoddau yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fach.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn yr adroddiad gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn 2012 yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc wedi bod yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru dros y pedair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ond yn is na chyfartaleddau Cymru mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn Cymraeg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Roedd canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru mewn dwy o'r blynyddoedd hyn.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio ac wedi bod ymhlith y 25% isaf a'r 25% uchaf yn ystod y cyfnod.

Nid oes bwlch arwyddocaol yn nghyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr

Derbyniwyd 12 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Nododd y cyfan o'r rhieni eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Maent i gyd yn cytuno bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, a'u bod wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. Mae pob un yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod eu plentyn yn ddiogel yno. Mae'r holl rheini yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae pob un a ymatebodd yn cytuno bod cymorth ychwanegol priodol ar gael yn ôl yr angen. Mae pob un yn cytuno bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae bron pob un a ymatebodd yn cytuno bod eu plentyn wedi'i baratoi yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Maent i gyd yn cytuno bod amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

Mae'r holl rieni yn cytuno'n bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater. Mae pob un yn deall trefn yr ysgol ar gyfer cwyno.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 16 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae'r cyfan yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Mae bron pob un o'r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Llinos Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Jones-Artell | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.